**Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd: Egwyddorion mewn perthynas â Gyrfaoedd a Recriwtio Moesegol**

Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yw'r gwasanaeth gyrfaoedd canolog ar gyfer cymuned y brifysgol ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal a hyrwyddo safonau moesegol mewn pethynas â gyrfaoedd a gweithgareddau recriwtio. Mae'r egwyddorion isod yn berthnasol i'r gweithgareddau a weinyddir ac a gefnogir yn uniongyrchol gan y tîm gyrfaoedd canolog.

**Mae'r egwyddorion canlynol yn cael eu harwain gan:**

Strategaeth Prifysgol Metropolitan Caerdydd 2030 – Pwrpas, Effaith a Thosturi

**Ategir ymrwymiad pellach gan:**

Safon Ansawdd Aelodaeth AGCAS

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

Hawliau gweithwyr Llywodraeth y DU

**Egwyddorion mewn perthynas â Gyrfaoedd a Recriwtio Moesegol:**

- Rydym wedi ymrwymo i osgoi creu ymgyrchoedd marchnata sy'n hyrwyddo swyddi gyrfaol a chyflogadwyedd sy'n cyfrannu at effeithiau niweidiol y diwydiannau tanwydd ffosil, mwyngloddio, arfau a thybaco. Er y gall trydydd partïon uwchlwytho swyddi o'r fath ar fwrdd swyddi digidol Met Caerdydd a'u trafod yn ystod digwyddiadau gyrfaoedd a chyfweliadau arweiniad (gyda rhwymedigaeth i gynnal didueddrwydd), ni fyddwn yn eu datblygu na'u hannog yn fwriadol.

- Byddwn hefyd yn gwrthod unrhyw swyddi a lanlwythir gan drydydd partïon sydd angen cymeradwyaeth uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chwmnïau tybaco neu gynhyrchu cynhyrchion tybaco. Yn ogystal, ni fydd gan gwmnïau tybaco a'r rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu cynhyrchion tybaco fynediad i'n ffeiriau gyrfa a digwyddiadau i gyflogwyr.

- Yn lle hynny, byddwn yn annog ac yn amlygu "swyddi gwyrdd" yn rhagweithiol trwy sefydlu adran benodol ar ein bwrdd swyddi digidol a'u hyrwyddo trwy ymgyrchoedd e-bost priodol, mentrau cyfryngau cymdeithasol, a llwyfannau tebyg. Ym Met Caerdydd, rydym yn credu'n gryf mewn cydweithio â sefydliadau i ysgogi newid cadarnhaol. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd rhai o'r safleoedd amgylcheddol gynaliadwy hyn i'w cael o fewn y diwydiannau a grybwyllwyd yn flaenorol, ac ni fyddwn yn eithrio sefydliadau sy'n gwneud newid cadarnhaol.

- Mae pob cyfle a restrir ar ein bwrdd swyddi digidol yn cael ei sgrinio i warantu ei ddilysrwydd, i ganfod bod amgylcheddau gwaith yn ddiogel ar gyfer ein myfyrwyr a'n

graddedigion, a sicrhau bod cyflogwyr yn cydymffurfio â chyfreithiau cyflogaeth cyfredol. Mae gennym broses sefydledig i godi pryder, gan ein bod yn sylweddoli y gall gwallau ddigwydd a bod hwn yn faes o'n gwaith sydd wedi'i dargedu'n weithredol gan dwyllwyr yn y gorffennol.

- Ar interniaethau neu leoliadau gwaith a ariennir / a hwylusir gan Met Caerdydd, rhaid i bob parti dan sylw lofnodi cytundeb teiran, sy'n cynnwys asesiad risg cynhwysfawr, cyn cychwyn, gan sicrhau gwerthusiad trylwyr o risgiau posibl a mesurau lliniaru.

- Rydym yn cynnal y safonau cyflogaeth uchaf trwy sicrhau bod yr holl interniaethau myfyrwyr a chyfleoedd cyflogaeth y recriwtir ar eu cyfer yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd ym Met Caerdydd yn derbyn cyllid ac iawndal llawn a phriodol, yn unol â chanllawiau'r brifysgol.

- Yn ogystal, mae unrhyw interniaethau di-dâl a hysbysebir ar ran trydydd parti drwy ein system ddigidol yn cael eu sgrinio'n drylwyr a rhaid iddynt hysbysebu uchafswm o 70 awr gwaith yn unig, tra'n cynnig cyfleoedd ystyrlon. Rydym yn cydnabod bod mynd y tu hwnt i'r trothwy hwn yn codi pryderon ynghylch camfanteisio posibl.

- Mae Met Caerdydd yn bwriadu blaenoriaethu dyraniad cyllid tuag at gefnogi gweithgareddau cyflogadwyedd o fewn sefydliadau, gan ganolbwyntio'n benodol ar endidau lleol sy'n dangos ymrwymiad cryf i wella llesiant unigolion ac iechyd y blaned. Rydym wedi ymrwymo i greu model heb unrhyw gost i sefydliadau sydd am ymgysylltu â ni, i hyrwyddo cyfleoedd o'r fath i'n myfyrwyr.

- Rhaid i'r holl nwyddau a gynhyrchir gan gynrychiolwyr y Gwasanaeth Gyrfaoedd ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo i'n marchnadoedd targed fod yn gynaliadwy, er enghraifft, wedi'u gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Brifysgol i sicrhau bod eitemau a gyrchir ar gyfer gweithgareddau o'r fath yn cael eu trefnu'n fewnol a'u bod yn bodloni'r egwyddorion cynaliadwyedd angenrheidiol.

- Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd Met Caerdydd yn ymdrechu i gynnal amgylchedd swyddfa di-bapur pryd bynnag y bo'n ymarferol. Mae argraffu wedi'i gyfyngu i achosion lle mae angen addasiadau rhesymol ar fyfyrwyr neu pan mai papur yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyrwyddo gwasanaethau hanfodol i fyfyrwyr. Rydym yn gwneud y defnydd gorau o ddewisiadau amgen cynaliadwy, megis hysbysfyrddau digidol, e-ymgyrchoedd, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, a strategaethau tebyg, i leihau ein dibyniaeth ar gyfathrebu ar bapur.

- Mae Met Caerdydd yn cynnal ymrwymiad i dryloywder i feithrin gwelliant parhaus trwy adborth. Os oes gennych unrhyw adborth am y polisi hwn, mae croeso i chi gysylltu â ni trwy dudalen cysylltu â ni ein gwefan - https://www.cardiffmet.ac.uk/about/careers/Pages/Contact-us.aspx

- Bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu hadolygu bob 12 mis a'u diweddaru yn unol â strategaeth y brifysgol a'r adnoddau sylfaenol sydd wedi'u cysylltu uchod.